# Nawfed Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu, Trafodaeth Bwrdd Crwn ar Gaffael - Cofnodion

**Dyddiad:** 3 Rhagfyr 2014
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Amser:** 12:15pm

**Yn bresennol:**

- Y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt AC
- Joyce Watson AC (Llafur Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru), Cadeirydd
- David Rees AC (Llafur Cymru, Aberafan)
- Mark Bodger, CITB Cymru
- Donna Griffiths, CITB Cymru
- Owain Jones, TRJ ltd
- Nitesh Patel (Staff Cymorth Joyce Watson AC)
- Alex Still (Staff Cymorth Jeff Cuthbert AC)
- Stuart Brisbane, Pick Everard
- Gareth Davies, Knox and Wells
- Mike Edmonds, Constructing Excellence
- Huw Jones, Jones Bros
- Rhodri Jones, Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (Cymru) Cyf
- Jeff Price, McCann a Phartneriaid
- Clive Webb, Boyes Architects
- Robert Williams, W.R.W Construction Ltd
- Leigh Hughes, Buoyges

*Darparwyd gwasanaethau ysgrifenyddol i'r Grŵp gan gynrychiolwyr o Grayling, ar ran CITB Cymru.*

## Eitem 1: Croeso gan y Cadeirydd, Joyce Watson AC

Croesawodd **Joyce Watson AC** y rhai oedd yn bresennol i'r cyfarfod a diolchodd y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt AC, am ddod.

## Eitem 2: Cyfraniad a'r Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Gweinidog

Dywedodd **Jane Hutt AC** wrth y grŵp ei bod yn falch iawn o fod yno, yn enwedig yn dilyn y ddadl ar gaffael yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru y diwrnod blaenorol. Roedd yn cydnabod bod cynnydd mawr wedi'i wneud o ran caffael yng Nghymru a bod adborth gan y diwydiant adeiladu yn bwysig. Nododd fod llawer o arian wedi'i wario ar y maes hwn yn y byd adeiladu a bod hyn wedi cael effaith lluosydd ar economïau lleol o ran swyddi a hyfforddiant. Pwysleisiwyd hefyd fuddiannau cymunedol a chynnwys hynny ym mholisi caffael Cymru. Dywedodd y Gweinidog y bydd yn cyhoeddi diweddariad ar Biblinellau Prosiect Buddsoddi Seilwaith Cymru diweddaraf ac anogodd y dylai hyn gael ei wneud yn dryloyw i'r diwydiant adeiladu. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r syniad y dylai mwy o fusnesau bach a chanolig ym maes adeiladu gael eu hannog am gontractau mwy yn y sector cyhoeddus a bod defnyddio Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID), arferion talu teg a chynyddu faint o wybodaeth sydd ar gael yn helpu gyda hyn.

Cyfeiriodd y Gweinidog at gyhoeddiad diweddar gan Gymdeithas Joseph Rowntree ar y cyswllt rhwng caffael a thlodi sy'n tynnu sylw penodol at y rôl y gall budd-daliadau cymunedol ei chwarae wrth liniaru tlodi. Cydnabu Ms Hutt yr angen i feithrin hyder yn y diwydiant adeiladu fel y gellir cynnig mwy o lefydd prentisiaeth a bod symleiddio SQuID yn rhan allweddol o hyn. Mae awdurdodau lleol wedi cofrestru ar gyfer SQuID a defnyddiodd y Gweinidog y cynnydd mewn hysbysiadau ar GwerthwchiGymru fel tystiolaeth bod SQuID yn cael effaith. Cyfeiriodd hefyd at y canllaw bidio ar y cyd a lansiwyd i helpu busnesau bach a chanolig i fidio am gontractau mwy a'r Cyfrifon Banc Prosiect sy'n cael eu peilota ar hyn o bryd. Gwnaed cyswllt hefyd at Gyfarwyddebau'r UE a allai ddylanwadu ar y ffordd y datblygir polisi caffael.

**<u>Eitem 3: Trafodaeth Grŵp</u>**

Dywedodd **Robert Williams** wrth y grŵp fod grŵp Sgiliau Adeiladu Cymru wedi trafod caffael yn ddiweddar. Dywedodd nad oedd ganddo feirniadaeth fawr am SQuID ond holodd a oedd yn briodol i bawb ei defnyddio ac a oedd unrhyw fantais wirioneddol i gwmnïau dyfu ohoni. Ychwanegodd ymhellach mai dim ond un pryder oedd hyn am gaffael a dim ond un elfen fechan ydoedd. Holodd a oedd dogfennau caffael yn ddigonol ar hyn o bryd gan fod pob awdurdod lleol yn darparu dogfennau gwahanol. Holodd Mr Williams hefyd faint o anogaeth sydd i fusnesau bach a chanolig fidio am gontractau mawr. Nododd y byddai annog mentrau ar y cyd yn lleihau'r risg y mae'n rhaid i gwmnïau bach ei chymryd. O ran cymalau cymdeithasol mewn contractau, cydnabu eu bod wedi cael eu croesawu gan y diwydiant ond holodd a ydynt yn cael eu monitro'n briodol ac os oes angen canolbwyntio arnynt i'r graddau hyn. Nododd y galw uchel am brentisiaid ond dywedodd nad yw'r cymorth a ddarperir i gyflogwyr yn ddigonol o bosib a bod rhaid i'r arian ardoll cael ei ddyrannu i'r llefydd cywir. Amlygodd y gallai gormod o gymalau cymdeithasol mewn contractau beidio ag annog cyflogwyr i fidio. Daeth i'w gasgliad drwy amlinellu ei bryder os caiff mwy o doriadau i gefnogi prentisiaid eu gwneud.

Eglurodd **Leigh Hughes** nad yw'r bobl sy'n delio ag ymholiadau am SQuID wedi eu hyfforddi i ddelio â hynny. Nododd fod angen i awdurdodau lleol uno o ran eu hagwedd at SQuID ac nad yw cymdeithasau tai yn cytuno â'r fframweithiau. Dywedodd Mr Hughes fod angen edrych ar werth am arian MPS ac nad yw'n gweithio'n dda yn Lloegr. Nododd ei bryder ynghylch strwythur modiwlaidd prentisiaethau adeiladu a bod rhaid i brentisiaid gael eu paru â'r busnesau cywir.

Nododd **Owain Jones** eu bod wedi ceisio codi cywilydd ar gymdeithasau tai i gydymffurfio â'r fframwaith SQuID a dywedodd eu bod wedi cynnwys dwy gymdeithas dai yn llwyddiannus i'r Academi Sgiliau. Cytunodd nad oedd llawer o gontractwyr mwy yn cymryd llawer o ddiddordeb. Mae angen i ni annog partneriaethau â chwmnïau mwy.

Gofynnodd **Joyce Watson AC** sut y gellid gwella hyn.

Atebodd **Robert Williams** bod angen cymhellion arnom ar gyfer mentrau ar y cyd.

Soniodd **Owain Jones** ei fod yn gwybod am gynigion ar y cyd sydd wedi cael eu gwrthod.

Gofynnodd **Joyce Watson AC** a oes angen i ni lefelu'r meini prawf ar gyfer contractwyr fel y gellir annog bidio ar y cyd.

Nododd **Robert Williams** fod peidio â gallu gweithredu mewn mentrau ar y cyd yn eithrio busnesau bach a chanolig a hefyd yn atal cwmnïau llai rhag cael y profiad hwn a gwneud cais am gontractau yn y dyfodol. Gallai hefyd fod cyfyngiadau trosiant i gwmnïau sy'n bidio am gontractau, ond mae gennym gyfle i newid hyn.

Dywedodd **Huw Jones** wrth y grŵp mai un o'r problemau mwyaf mae'r sector adeiladu yn ei wynebu yw maint bychan y farchnad, gyda llai o gontractau a chontractau llai ar gael. Dywedodd Mr Jones fod ei gwmni yn cymryd mantais o Waith yng Nghymru. Eglurodd fod cysylltiadau trafnidiaeth gwael yng Nghymru yn creu trafferth ac yn rhwystr i ddatblygwyr. Pwysleisiwyd hefyd fod datblygiadau adeiladu yn cael effaith luosydd ar economi leol ond nad yw Llywodraeth Cymru i weld yn cydnabod hyn. Awgrymodd Mr Jones os yw Cymru am lwyddo, mae'n rhaid cael cwmnïau adeiladu mwy i ddarparu'r cyfleoedd cyflogaeth. Mae llawer o gyfleoedd yn seilwaith y sector adeiladu fel datblygiadau ffermydd gwynt, prosiect niwclear y Wylfa a morlyn ynni'r llanw yn Abertawe.

Nododd **Joyce Watson AC** fod y sector olew yn Sir Benfro yn dirywio ond awgrymodd y gallai'r rhai sy'n colli eu swyddi gael eu hailhyfforddi yn y sector ynni adnewyddadwy.

Cytunodd **Huw Jones** fod cadw sgiliau yn bwysig, ond bod angen i gwmnïau ddarparu'r swyddi yn y lle cyntaf. Defnyddiwyd enghraifft Aberdeen i ddangos sut y gall cyflogwyr ddefnyddio sgiliau o bob cwr o'r byd.

Soniodd **Mike Edmunds** fod gwariant o £2.3 biliwn yn cael ei wario ar adeiladu cyhoeddus yn flynyddol. Dywedodd wrth y grŵp fod ei gwmni yn ennill gwobrau yn flynyddol a'i fod yn gadarnhaol iawn am eu llwyddiannau. Soniodd ymhellach am y diwydiant adeiladu y tu hwnt i Gymru, gan ddweud bod tair gorsaf niwclear yn y DU a fydd yn creu gwerth £30 biliwn o waith adeiladu a bod hon yn farchnad anferthol. Dywedodd Mike Edmunds mai ef oedd cadeirydd adroddiad 'No Turning Back' a bod eu chwe argymhelliad wedi cael eu croesawu. Dywedodd fod angen edrych ar yr argymhellion hyn ac a ydynt wedi bod yn llwyddiannus.

**<u>Eitem 4: Y cyfarfod nesaf</u>**

Nododd **David Rees AC** fod angen i'r grŵp nesaf drafod cwmnïau ambarél.
Nododd
**Joyce Watson AC** ei bod yn derbyn y materion am SQuID. Ychwanegodd ei fod yn fater digon mawr ar ei ben ei hun gan fod strwythur awdurdodau lleol yn newydd o hyd. Gofynnodd i'r grŵp a oedd unrhyw beth arall yr oedd angen i'r aelodau ei wybod.

Eglurodd **Clive Webb** ei fod wedi bod yn gweithio ar grŵp gorchwyl Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM). Dywedodd ei fod yn falch o weld bod BIM yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu ac y byddai'n cael ei gynnwys ym mhob un o brosiectau Llywodraeth Cymru erbyn 2015. Nododd nad oedd yn ymddangos fod polisi BIM cyson yng Nghymru a bod contractwyr yn ei chael yn anodd pan nad yw isgontractwyr yn cydymffurfio'n llwyr â BIM. Dywedodd Mr Webb fod angen mynd i'r afael â hyn a bod cwestiynau ynghylch aeddfedrwydd BIM gan ei fod ond wedi digwydd mewn gwirionedd yn Lloegr.

Gofynnodd **Joyce Watson AC** ba agwedd ar bolisi yr oedd Mr Webb am weld camau yn cael eu cymryd.

Pwysleisiodd **Clive Webb** fod angen i gontractwyr ac isgontractwyr gydymffurfio'n llawn â BIM a bod angen i awdurdodau lleol gael dogfen ganllaw ar hyn i'w helpu.

Soniodd **Rhodri Jones** am gyfraniadau David Rees AC ynghylch cwmnïau ambarél. Dywedodd fod gwahaniaeth rhwng llafur asiantaeth a llafur uniongyrchol ar fudd-daliadau cymunedol.

Dywedodd **Joyce Watson AC** y byddai cwmnïau ambarél ar yr agenda nesaf.

Soniodd **Robert Williams** bod angen templed safonol yn benodol ar gyfer sector ar gyfer caffael cyhoeddus.

**Camau gweithredu**

Gofynnodd **Joyce Watson AC** i'r grŵp gysylltu â hi am y materion hyn er mwyn eu hystyried ymhellach.

***Diwedd y cyfarfod***

DRAFT